*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar'**
**Dydd Llun, 26ain Medi, 2022 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 22 Medi 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Medi 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 8)**

3. **RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2022-23 y Cyngor. Bydd y Rhaglen Waith yn llywio gweithgarwch canghennau eraill o'r Cyngor ynghyd â gwaith y Cabinet.

**(Tudalennau 9 - 30)**

4. **ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR (CHWARTER 1)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2022), mewn perthynas â materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 31 - 58)**

5. **Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y NEWYDDION DIWEDDARAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23 tan 2025/26, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol, cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2023/24 yn ystod misoedd yr hydref.

**(Tudalennau 59 - 112)**

6. **CYNNIG I DDATBLYGU YSGOL ARBENNIG NEWYDD YN RHCT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet am ein darpariaeth ysgolion arbennig bresennol yn dilyn adroddiadau blaenorol i'r Cabinet ym mis Chwefror a Hydref 2021 lle cytunodd y Cabinet i waith cwmpasu ychwanegol gael ei gynnal er mwyn llywio cynigion am newid yn ein darpariaeth ysgolion arbennig; a cheisio cymeradwyaeth i gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru er mwyn cynyddu amlen ariannu rhaglen fuddsoddi Band B y Cyngor.

**(Tudalennau 113 - 126)**

7. **DIWEDDARIAD AR ROI DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG AR WAITH YN RHCT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet am roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys defnyddio adnoddau ychwanegol wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i alluogi'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i gyflawni'i nifer uwch o ddyletswyddau statudol yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn ystod blynyddoedd 1 a 2 o'r amserlen gweithredu ADY genedlaethol 3 blynedd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi risgiau posibl a'r adnoddau ychwanegol posibl sydd eu hangen i sicrhau bod modd i'r Cyngor

gyflawni ei ddyletswyddau ADY statudol ar ddiwedd y cyfnod pontio 3 blynedd pan fydd y system ADY newydd ar waith yn llawn, a hynny ar ôl iddi gymryd lle'r hen system Anghenion Addysgol Arbennig.

**(Tudalennau 127 - 150)**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2021/22 i Lywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 151 - 176)**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhannu Adroddiad Blynyddol 2021/22 Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg â'r Cabinet.

**(Tudalennau 177 - 232)**

**10. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw eitemau sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol